



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cerecare LTD**

**Cerecare Nursing & Domiciliary Services Ltd**  
**26 Heol y Bont**  
**Llanbedr Pont Steffan**  
**SA48 7AA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

20/12/2023

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## Cerecare LTD

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Cerecare nursing and domiciliary services ltd.
Lleodd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	4 Gorffennaf 2023
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth.

### Crynodeb

Gwasanaeth cymorth cartref yw Cerecare Ltd, sy'n darparu gofal o ansawdd da. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael a chânt eu trin ag urddas a pharch. Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal diogel a phroffesiynol, ac maent wedi meithrin cydberthnasau effeithiol â nhw.

Mae'r gwasanaeth wedi penodi Unigolyn Cyfrifol a rheolwr newydd yn y gwasanaeth yn ddiweddar, sy'n gweithio tuag at gyflawni'r cymwysterau priodol ac at gofrestru'n addas â Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu. Mae trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a goruchwyllo'r gwasanaeth yn effeithiol.

## Llesiant

Mae gan y bobl gymaint o reolaeth â phosibl dros eu bywydau bob dydd. Mae'r rheolwr yn ymgynghori â'r bobl cyn i'r gwasanaeth ddechrau ac yn cadarnhau pa ganlyniadau personol yr hoffai'r bobl eu cyflawni. Caiff gwybodaeth am ddewisiadau'r bobl a'r arferion sydd orau ganddynt eu cofnodi yng nghynlluniau gofal personol y bobl ac mae'r gwasanaeth yn anelu at ddarparu cymorth mewn ffordd sy'n adlewyrchu hyn. Caiff adolygiadau eu cynnal sy'n cynnwys y bobl a/neu eu cynrychiolwyr. Mae'r adolygiadau yn ystyried sut y caiff canlyniadau'r bobl eu cyflawni, yn nodi pan fo angen gwneud newidiadau, a chaiff cynlluniau personol eu diweddarau. Mae hyn yn golygu bod gan y bobl lais, ac ymgynghorir â nhw'n rheolaidd.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch ac maent yn derbyn cymorth priodol, caredig a gofalgar gan staff gofal y maent yn eu hadnabod. Gall y bobl siarad Cymraeg ag aelodau o'r staff gofal sy'n siarad Cymraeg. Roedd y bobl a'u cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y ffordd y caiff y gofal ei ddarparu gan y staff gofal yn y gwasanaeth. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"They are good at giving me their time. They notice if I am feeling down and try to cheer me up."* Dywedodd aelod o deulu wrthym, *"If [my relative] needs the extra time, they stay and are not in a rush to get from here."*

Mae'r bobl yn cael cymorth sy'n hyrwyddo eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn gwybod sut y mae'n well gan y bobl gael eu cymorth. Mae hyn yn helpu'r staff gofal i nodi cyn gynted â phosibl pan fydd y bobl yn sâl. Pan fydd y bobl yn sâl, mae'r gweithwyr gofal yn cydgyssylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill yn ôl yr angen. Mae hyn yn golygu hyn fod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"They ask me what I want to do if there are any issues, so we have a chat with the district nurse."*

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn. Maent yn cael gofal a chymorth gan staff gofal sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon dda gan dîm o staff sy'n cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n dda, ac sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu, neu wrthi'n gwneud cais i gofrestru. Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed gan staff proffesiynol sy'n gwybod sut i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn ac maent yn hyderus y bydd y gwasanaeth yn ymateb.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol wedi'u hysgrifennu'n glir ac yn cynnwys gwybodaeth fel dewisiadau personol, asesiadau risg, a chynlluniau manwl ar sut y dylid darparu'r gofal a'r cymorth. Mae cynlluniau'r bobl yn rhoi cyfarwyddyd i'r staff er mwyn iddynt ddarparu gofal a chymorth mewn ffordd gyson. Mae'r staff gofal yn rhoi cymorth unigol i'r bobl fel y nodir yn eu cynlluniau personol. Mae adolygiadau o ganlyniadau'r bobl ac arolygon boddhad yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn adlewyrchu gofynion cymorth y bobl yn gywir. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn yr adolygiadau o'r gofal, lle bo'n bosibl. Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael gan y gwasanaeth. Dywedodd cynrychiolydd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"They know what to do. They are brilliant."* Dywedodd aelod o staff gofal wrthym, *"We are listening to the client and their needs and wants."*

Mae'r staff gofal yn wybodus am y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac yn ymdrin â nhw mewn ffordd empathetig ac amyneddgar. Caiff gofal ei ddarparu gan staff sy'n deall anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae darparwyr y gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd cysondeb o ran staff wrth ddarparu gofal a chymorth i'r bobl. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"They are consistent. I keep the same [care staff]."* Dywedodd aelod o staff gofal wrthym, *"The calls are organised well...We have enough time."*

Caiff iechyd corfforol a llesiant y bobl eu hybu. Mae'r cynlluniau personol yn dangos bod y bobl yn cael cymorth i gysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Mae'r gwasanaeth yn deall cyflyrau iechyd y bobl, y cymorth sydd ei angen arnynt ac yn gallu adnabod newidiadau o ran golwg ac ymddygiad arferol y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt yn brydlon. Caiff y bobl eu hannog i fod mor iach â phosibl. Dywedodd cynrychiolydd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"We have no concerns, we are happy."* Dywedodd aelod o'r staff gofal wrthym, *"The management want to make sure that everything is right for the service users and the carers."*

Mae'r bobl yn cael eu diogelu. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o sut i roi gwybod am faterion sy'n ymwneud â diogelu. Mae'r staff gofal yn sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl drwy gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau clir. Mae trefniadau da ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddiogel.

Mae'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn dda. Mae pob aelod o'r staff gofal yn cael hyfforddiant priodol ar reoli heintiau. Dywedodd y bobl a'u cynrychiolwyr wrthym fod y staff gofal yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol (PPE) perthnasol a'u bod yn teimlo'n ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Rhoddir gwybodaeth gywir i'r bobl am y gwasanaeth. Mae canllaw ysgrifenedig ar gael sy'n rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu perthnasau ac eraill. Ceir datganiad o ddiben sy'n rhoi disgrifiad cywir o sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.

Mae trefniadau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith gan y gwasanaeth i fonitro ac adolygu ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'r trefniadau goruchwylio effeithiol hyn yn sicrhau y darperir gwasanaeth o ansawdd da, sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion yr unigolion a hyrwyddo eu llesiant. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn treulio amser yn siarad â'r bobl. Mae'r adolygiad diweddaraf o ansawdd y gofal yn nodi meysydd i'w datblygu a'u gwella ac yn defnyddio profiadau'r bobl i ddatblygu a gwella'r gofal a'r cymorth a ddarperir.

Mae'r rheolwr yn gweithio tuag at gyflawni cymwysterau digonol ac at gofrestru'n briodol â rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol, Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rheolwr mewn cysylltiad rheolaidd â'r Unigolyn Cyfrifol. Caiff y rheolwr ei gefnogi gan staff y swyddfa, sy'n gweithio'n dda fel tîm. Dywedwyd wrthym fod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac yno bob amser i helpu neu gynghori'r staff pan fo angen. Dywedodd aelod o'r staff gofal wrthym, "*[They] are easy to talk to if you have an issue.*"

Gwnaethom edrych ar rota staffio'r gwasanaeth a gwelsom fod niferoedd digonol o staff gofal ar gael i roi gofal a chymorth. Mae cofnodion recriwtio staff gofal newydd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ac yn gyfredol. Mae gan y gwasanaeth system gadarn ar waith sy'n sicrhau bod y staff gofal wedi'u cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol, Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae aelodau newydd o staff gofal yn cwblhau rhaglen sefydlu drylwyr sy'n cynnwys hyfforddiant, shifftiau cysgodi, gwiriadau cymhwysedd staff a chyflwyniadau i bolisiâu a gweithdrefnau. Mae cofnodion hyfforddiant y staff gofal yn dangos bod amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant ar gael iddynt, ac roedd yr holl ffeiliau staff a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau lefel dda o hyfforddiant. Roedd yr adolygiad o ansawdd y gofal yn nodi camau gweithredu y gallai'r gwasanaeth eu cymryd i gryfhau ei raglen hyfforddi staff ymhellach, er mwyn gwella'r gofal a'r cymorth y mae'r bobl yn eu cael.

Mae'r staff gofal yn cael cymorth un i un, drwy sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol. Mae'r tîm rheoli yn cynnig cymorth dyddiol i'r staff gofal pan fo angen ac yn cynnal hapwiriadau sicrhau ansawdd rheolaidd. Dywedodd aelod o'r staff gofal wrthym, "*We are a team.*"

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
6	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgîl digonol.	Cyflawnwyd
36	Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod pob aelod o'r staff gofal yn cael cyfnod sefydlu yn y gwasanaeth a'r holl hyfforddiant perthnasol. Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod staff yn cael eu goruchwyllo a'u harfarnu.	Cyflawnwyd
73	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod systemau ar waith i'r Unigolyn Cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth.	Cyflawnwyd

15	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod cynlluniau personol yn cynnwys digon o fanylion na'r holl asesiadau risg priodol sy'n nodi sut y caiff anghenion gofal a chymorth unigolion eu diwallu. Ar hyn o bryd, nid yw'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac nid ydynt yn cynnwys hanes cymdeithasol, hoff bethau, cas bethau na'r nodau personol a nodwyd gan yr unigolyn. Heb y wybodaeth hon, ni all darparwyr gwasanaethau fod yn sicr eu bod yn cyflawni canlyniadau personol pobl.	Cyflawnwyd
16	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod cynlluniau personol yn cael eu hadolygu mewn modd amserol a'u bod yn cynnwys adolygiad o'r ffordd y mae'r bobl wedi cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol.	Cyflawnwyd
35	Ni all darparwr y gwasanaeth fod yn sicr bod pob aelod o'r staff gofal yn ddiogel ac yn addas i weithio yn y gwasanaeth gan nad yw ffeiliau personél pob aelod o'r staff yn cynnwys y wybodaeth reoleiddiol sydd ei hangen.	Cyflawnwyd
80	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod trefniadau addas ar waith i greu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella'r gwasanaeth.	Cyflawnwyd

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

<b>Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella</b>		
<b>Rheoliad</b>	<b>Crynodeb</b>	<b>Statws</b>
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
7	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n unol â'r datganiad o ddiben.	Cyflawnwyd



## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 26/01/2024**